



Amser hamdden

Amser hamdden



Llafaredd (TC1): Amser hamdden

Nod: *Cynnal sgwrs am amser hamdden.*

Camau:

1. Edrych ar y mat iaith i adolygu patrymau iaith Lefel 3 (**Atodiad 1**).
2. Darllen deialog enghreifftiol ar lefel 3 (**Atodiad 2**).
3. Ystyried sut y gellir gwella'r ddeialog enghreifftiol – gwaith pâr.
4. Cyflwyno meini prawf llwyddiant Lefel 4 (**Atodiad 3**).
5. Defnyddio'r meini prawf llwyddiant i wella'r ddeialog.
6. Cyflwyno mat iaith patrymau lefel 4. Dysgwyr i ymarfer trwy gynnal sgwrs gan ddefnyddio'r cwestiynau a'r atebion sydd ar y mat (**Atodiad 4**).
7. Mewn parau, y dysgwyr yn chwarae'r gêm dolen er mwyn adolygu'r patrymau iaith a gyflwynwyd ar y mat iaith (**Atodiad 5**).
8. Dysgwyr i ddefnyddio'r Snapdragon i holi ac ateb y cwestiynau (**Atodiad 6**).
9. Edrych ar enghraifft o ddeialog ar lefel 4 (**Atodiad 7**).
10. Edrych ar ddeialog lefel 3 a lefel 4 a'u cymharu drwy ddefnyddio'r tabl 'Ymatebion enghreifftiol ar gyfer symud o Lefel 3 i 4' (**Atodiad 8**).
11. Dysgwyr i ymarfer y ddeialog mewn parau.
12. Gwaith pâr - dysgwyr i dorri'r ddeialog mewn strbedi a'i hail osod yn y drefn gywir (**Atodiad 9**).
13. Dysgwyr i weithio mewn parau i greu eu sgwrs eu hunain yn seiliedig ar y ddeialog enghreifftiol (**Atodiad 7** ac **Atodiad 10**) neu gellir defnyddio y matiau iaith gwag (**Atodiadau 11 a 12**) i'r un pwrpas.

*Mae copi o lefelau'r Cwricwlwm Cenedlaethol sy'n berthnasol i'r dasg at ddefnydd yr athro wedi ei gynnwys yma. Gweler **Atodiad 13**.*



Leisure time

Leisure time




Oracy (TC1): Leisure time

Aim: *To hold a discussion about leisure time.*

Steps:

1. Study the language mat (**Appendix 1**) in order to revise level 3 language patterns.
2. Read the level 3 exemplar dialogue (**Appendix 2**).
3. Pairs to discuss how the dialogue could be improved.
4. Introduce level 4 assessment criteria (**Appendix 3**).
5. Use the assessment criteria in order to improve the dialogue.
6. Introduce level 4 language patterns by means of the language mat (**Appendix 4**). Learners to practice holding a conversation using the questions and answers on the language mat.
7. Learners to play the loop game in **Appendix 5** in pairs in order to revise the language patterns introduced by the language mat.
8. Learners to use the Snapdragon (**Appendix 6**) to ask and answer the questions.
9. Study the level 4 exemplar dialogue (**Appendix 7**).
10. Compare the level 3 and level 4 dialogue by using the 'Ymatebion enghreifftiol ar gyfer symud o lefel 3 i lefel 4' table (**Appendix 8**).
11. Learners to practise the dialogue in pairs.
12. Pair work: learners to cut the dialogue into strips and arrange correctly again (**Appendix 9**).
13. Learners to work in pairs to create their own dialogue based on the exemplar dialogue (**Appendix 7** and **Appendix 10**) or the empty language mat in **Appendix 11** can be used for the same purpose.

Atodiad 1 / Appendix 1



Atodiad 2 / Appendix 2



Deialog enghreifftiol lefel 3

Elen: Helo! Sut wyt ti Gwyn?

Gwyn: Dw i'n fendigedig diolch. A ti?

Elen: Dw i'n grêt diolch. Beth wyt ti'n hoffi wneud Gwyn?

Gwyn: Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n dda. Beth wyt ti'n hoffi wneud Elen?

Elen: Dw i'n hoffi dawnsio achos mae'n hwyl. Ble wyt ti'n chwarae pêl-droed?

Gwyn: Dw i'n chwarae pêl-droed yn y parc. Beth dwyt ti ddim yn hoffi wneud Elen?

Elen: Dw i ddim yn hoffi chwarae criced achos mae'n ddiflas. Hwyl Gwyn!

Gwyn: Hwyl fawr Elen!


Atodiad 3 / Appendix 3



Meini prawf llwyddiant enghreifftiol lefel 4

Ydw i wedi ...? / Have I ...?	✓	✗
• Started the conversation appropriately		
• Asked and answered questions with confidence		
• Listened and responded appropriately		
• Extended my sentences, e.g. used a / ac or ond to connect sentences, e.e. Dw i'n hoffi dawnsio achos mae'n hwyl ond dw i ddim yn hoffi chwarae golff achos mae'n ddiflas.		
• Volunteered extra information		
• Expressed opinions and given reasons		
• Used phrases to extend the conversation, e.g. A ti? / Beth amdanat ti? / Wir?		
• Finished the conversation appropriately		

Atodiad 4 / Appendix 4



Atodiad 5 / Appendix 5



Gêm dolen

Yn fy amser hamdden, dw i'n hoffi ...	Beth ydy 'What do you like doing in your leisure time?' yn Gymraeg?
Beth wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser hamdden?	Beth ydy 'What about you?' yn Gymraeg?
Beth amdanat ti?	Beth ydy 'I enjoy playing football because it's lots of fun' yn Gymraeg?
Dw i'n mwynhau chwarae pêl-droed achos mae'n llawer o hwyl.	Beth ydy 'What don't you enjoy doing?' yn Gymraeg?
Beth dwyt ti ddim yn mwynhau wneud?	Beth ydy 'I think that reading is boring' yn Gymraeg?
Dw i'n meddwl bod darllen yn ddiflas.	Beth ydy 'I hate' yn Gymraeg?
Dw i'n casáu ...	Beth ydy 'What do you think of..?' yn Gymraeg?
Beth wyt ti'n feddwl o ...?	Beth ydy 'In my leisure time, I like ...' yn Gymraeg?

Atodiad 6 / Appendix 6



glas portor 1 Beth wyt ti'n feddwl o'r stori?	pinc coch 2 Beth wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser hamdden?
8 Beth wyt ti'n gasau?	3 Beth dwyt ti ddim yn mwynhau wneud?
Beth wyt ti'n mwynhau wneud? 7 melyn gwyrdd 6 Ble wyt ti'n nofio?	Beth wyt ti'n feddwl o rygbi? 4 du oren 5 Beth dwyt ti ddim yn hoffi wneud?

Atodiad 7 / Appendix 7



Deialog enghreifftiol lefel 4

Elen: Helo! Sut wyt ti Gwyn?

Gwyn: Dw i'n fendigedig diolch achos **dw i'n mynd i'r sinema heno**. A ti?

Elen: Dw i'n grêt diolch. Beth wyt ti'n hoffi **wneud yn dy amser hamdden Gwyn?**

Gwyn: Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n **gêm wych ond dw i ddim yn hoffi canu achos mae'n ddiflas**. Beth **amdanat ti?** Beth wyt ti'n mwynhau wneud Elen?

Elen: Dw i'n mwynhau dawnsio achos mae'n **llawer o hwyl ond dw i'n casáu chwarae criced achos mae'n gêm ofnadwy!**

Gwyn: **Casáu chwarae criced? Wir? Dw i'n meddwl bod criced yn gêm gyffrous!** Ble wyt ti'n dawnsio Elen?

Elen: Dw i'n dawnsio yn y ganolfan hamdden **gyda fy chwaer ar ddydd Sadwrn**. A ti? Ble wyt ti'n chwarae pêl-droed Gwyn?

Gwyn: Dw i'n chwarae pêl-droed **gyda fy ffrindiau yn yr ysgol ar ddydd lau a dydd Sadwrn**. Mae'n rhaid i fi fynd nawr! Hwyl Elen!

Elen: Hwyl Gwyn!

Atodiad 8 / Appendix 8



Ymatebion enghreifftiol ar gyfer symud o lefel 3 i 4

	Lefel 3		Lefel 4
Sut wyt ti?	Dw i'n fendigedig	Sut wyt ti?	Dw i'n fendigedig diolch achos dw i'n mynd i'r sinema heno.
Beth wyt ti'n hoffi wneud?	Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n dda.	Beth wyt ti'n hoffi wneud yn dy amser hamdden?	Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n gêm wych ond dw i ddim yn hoffi canu achos mae'n ddiflas.
Beth wyt ti'n hoffi wneud Elen?	Dw i'n hoffi dawnsio achos mae'n hwyl.	Beth amdanat ti? Beth wyt ti'n mwynhau wneud Elen?	Dw i'n mwynhau dawnsio achos mae'n llawer o hwyl ond dw i'n casáu chwarae criced achos mae'n gêm ofnadwy!
			Casáu chwarae criced? Wir? Dw i'n meddwl bod criced yn gêm gyffrous!
		A ti? Ble wyt ti'n dawnsio Elen?	Dw i'n dawnsio yn y ganolfan hamdden gyda fy chwaer ar ddydd Sadwrn.
Ble wyt ti'n chwarae pêl-droed Gwyn?	Dw i'n chwarae pêl-droed yn y parc.	Ble wyt ti'n chwarae pêl-droed Gwyn?	Dw i'n chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau yn yr ysgol ar ddydd lau a dydd Sadwrn.
	Hwyl Gwyn!		Mae'n rhaid i fi fynd nawr! Hwyl Elen!

Atodiad 9 / Appendix 9



Torrwch y ddeialog mewn sribedi a'i gosod yn y drefn gywir.

Gwyn: Dw i'n hoffi chwarae pêl-droed achos mae'n **gêm wych ond dw i ddim yn hoffi canu achos mae'n ddiflas. Beth amdanat ti? Beth wyt ti'n mwynhau wneud Elen?**

Gwyn: **Casáu chwarae criced? Wir? Dw i'n meddwl bod criced yn gêm gyffrous! Ble wyt ti'n dawnsio Elen?**

Elen: Dw i'n mwynhau dawnsio achos mae'n **llawer o hwyl ond dw i'n casáu chwarae criced achos mae'n gêm ofnadwy!**

Elen: Helo! Sut wyt ti Gwyn?

Elen: Hwyl Gwyn!

Gwyn: Dw i'n fendigedig diolch achos **dw i'n mynd i'r sinema heno. A ti?**

Gwyn: Dw i'n chwarae pêl-droed gyda fy ffrindiau yn yr ysgol ar ddydd lau a dydd Sadwrn. Mae'n rhaid i fi fynd nawr! Hwyl Elen!

Elen: Dw i'n dawnsio yn y **ganolfan hamdden gyda fy chwaer ar ddydd Sadwrn. A ti? Ble wyt ti'n chwarae pêl-droed?**

Elen: Dw i'n grêt diolch. Beth wyt ti'n hoffi **wneud yn dy amser hamdden Gwyn?**

Atodiad 9 (Parhad)


Appendix 9 (Continued)




Rhowch y ddeialog yn y drefn gywir / *Put the dialogue in the correct order*

[illegible]

Atodiad 11 / Appendix 11



Atodiad 12 / Appendix 12



Atodiad 13 / Appendix 13



Cymraeg Ail Iaith CA2: Llafaredd

Lefel	Tasg:	✓	x
3	Dangos dealltwriaeth o gyfres o eitemau byr a leferir gan lais cyfarwydd drwy ymateb yn ddi-iaith neu ar lafar		
	Ceisio, deall a chyfleu gwybodaeth syml , bersonol a ffeithiol yn eglur		
	Mynegi barn yn syml ac yn gwneud rhai gosodiadau'n wirfoddol		
	Wrth siarad, ynganu a goslefu yn ddealladwy gan ddefnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau sy'n gywir fel arfer		
4	Ymgynefino â lleisiau amrywiol gan ddangos dealltwriaeth o brif bwyntiau materion cyd-destunau cyfarwydd		
	Ymateb drwy ddulliau di-iaith ac ymadroddion byr ar lafar neu'n ysgrifenedig		
	Cyflwyno gwybodaeth a sôn am rai profiadau gan holi, ymateb a chynnig rhai sylwadau gwirfoddol		
	Cynnig rhai rhesymau gwirfoddol wrth fynegi barn		
	Ynganu a goslefu'n ddealladwy		
	Defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymadroddion / patrymau brawddegol gyda pheth cywirdeb		